814. IS-DDEDDFAU HARBWR PORTHCAWL

Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol Cymunedau adroddiad ar yr wybodaeth ddiweddaraf am y broses o ddiwygio'r is-ddeddfau sy'n effeithiol ar hyn o bryd yn Harbwr Porthcawl, i adlewyrchu'r gweithrediadau a'r gweithgareddau presennol sy'n digwydd, a'r ymgynghoriad ar yr is-ddeddfau newydd arfaethedig, o dan ddarpariaethau Deddf Is-ddeddfau Llywodraeth Leol (Cymru) 2012. Gofynnodd hefyd am gymeradwyaeth i'r is-ddeddfau newydd arfaethedig a gofynnodd iddynt, yn amodol ar gymeradwyaeth y Cabinet, gael eu cyflwyno i'r Cyngor i'w mabwysiadu.

Dywedodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol Cymunedau ei bod wedi cael awdurdod gan y Cabinet yn ei gyfarfod ym mis Rhagfyr 2020 i gynnal ymgynghoriad ar yr is-ddeddfau drafft arfaethedig. Cynhaliwyd ymgynghoriad rhwng 23 Awst 2021 a 14 Tachwedd 2021, drwy wefan y Cyngor ac yn dilyn yr ymgynghoriad, cafodd yr is-ddeddfau arfaethedig eu hadolygu gan Fwrdd yr Harbwr.

Dywedodd yr Aelod Cabinet dros Addysg ac Adfywio wrth gymeradwyo'r is-ddeddfau arfaethedig y byddent yn annog pobl i beidio â mynd i mewn i'r dŵr i ffwrdd o'r bad achub a'r gwaith llongau. Dywedodd fod posibilrwydd o ddatblygu platfform lle gallai nofwyr fynd i mewn i'r môr yn uniongyrchol i ddŵr dwfn, a fyddai'r cyfleuster cyntaf o'r fath ar hyd yr arfordir hwn. Dywedodd yr Aelod Cabinet Cymunedau y byddai'r is-ddeddfau arfaethedig yn lliniaru'r ffaith bod pobl yn cael eu taro gan gychod sy'n dod i mewn ac allan o'r marina. Dywedodd yr Arweinyddes fod diogelwch yr harbwr i'w ddefnyddwyr yn hollbwysig oherwydd bod cynnydd mewn chwaraeon dŵr.

PENDERFYNIAD: Bod y Cabinet wedi:

1. Nodi bod proses ymgynghori wedi'i chynnal, o dan ddarpariaethau Deddf Is-ddeddfau Llywodraeth Leol (Cymru) 2012, ac mae'r adroddiad ymgynghori wedi'i nodi yn Atodiad 2 yr adroddiad;

2. Cymeradwyo'r is-ddeddfau arfaethedig fel y'u nodir yn Atodiad 3, a;

3. Chytuno y dylid cyflwyno'r is-ddeddfau arfaethedig, fel y nodir yn Atodiad 3, i'r Cyngor i'w mabwysiadu.